




UWCHRADD ADDEWID CAERDYDD

YN Y RHIFYN HWN...



Cyfleoedd ysgol



Croeso i'n Cylchlythyr Ymrwymiad Caerdydd misol i hysbysu ysgolion uwchradd a phartneriaid am brosiectau sydd wedi'u datblygu i gefnogi ysgolion, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Os oes angen cymorth gan dîm Addewid Caerdydd ar eich sefydliad neu ysgol, cysylltwch â ni drwy e-bostio: cardiffcommitment@caerdydd.gov.uk

Tudalen Adnodd Ymrwymiad Caerdydd: [Ymrwymiad Caerdydd - Adnoddau Addysgu](#)

Mae'r dudalen hon yn cael ei diweddarau'n gyson felly cadwch olwg am adnoddau a gweithgareddau newydd.

Arolwg 6ed

Dosbarth Caerdydd

Helpwch ni i ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch chi gan bartneriaid Ymrwymiad Caerdydd i gefnogi eich uchelgeisiau yn y dyfodol a thaith i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Bydd pob myfyriwr sy'n cwblhau'r arolwg yn cael cyfle i ennill taleb Siopa Dewi Sant gwerth £100, mewn pryd ar gyfer y Nadolig!!



Cyswllt Arolwg Myfyrwyr



The Cardiff
Commitment
Addewid Caerdydd

Arolwg Rhieni 6ed Dosbarth Caerdydd

Helpwch ni i ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch chi gan bartneriaid Ymrwymiad Caerdydd i gefnogi uchelgeisiau eich plentyn yn y dyfodol a thaith i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

[Dolen Arolwg Rhieni](#)



The Cardiff
Commitment
Addewid Caerdydd



Gan weithio gydag athrawon ac arweinwyr ieuenctid, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) wedi datblygu pecyn cymorth di-dâl i ysgolion a grwpiau ieuenctid ar gydraddoldeb rhywedd a hawliau menywod. Gyda'r pecyn cymorth hwn, rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8fed Mawrth 2023!

Gan ddechrau ym 1911, cynhelir Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (DRhM) yn flynyddol. Mae'n ddiwrnod byd-eang sy'n dathlu cyflawniadau menywod. Yn ogystal â dathlu, mae'r diwrnod hefyd yn nodi galwad i weithredu ar gyfer cyflymu cynnydd tuag at gydraddoldeb rhywiol.

Cofiwch rannu eich bod yn cymryd rhan yn Niwrnod Rhyngwladol y Merched 2023 ar Twitter, Facebook, ac Instagram, gan ein tagio ni (@WENWales) a defnyddio'r hashnodau #100WelshWomen #100oFenywodCymreig a #IWD2023. Byddwn ni wrth ein boddau i weld eich lluniau a clywed am eich profiadau gyda'r pecyn cymorth!


Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) pecyn cymorth ar gael [yma](#)

GLL CEISIADAU SYLFAEN
CHWARAEON YN AGOR



Mae GLL eisiau cyrraedd cymaint o athletwyr ag y gall y llynedd fe wnaethant gefnogi 63 o athletwyr gwerth cyfanswm o dros £36,000. [Cliciwch yma](#) am arweiniad ar sut i wneud cais.

CAMU 'MILAEN




DOSBARTHIADAU MEISTR AR-LEIN AR GYFER
DISGYBLION BLWYDDYN 12 LEDLED CYMRU

PARATOI DISGYBLION AR GYFER ASTUDIO
YN Y BRIFYSGOL



PROFIADAU GWERTHFAWR Y GELLIR
SŌN AMDANYNT MEWN CEISIADAU

MYNEDIAD I YSGOL HAF A
DIGWYDDIADAU ERAILL WEDI'U TEILWRA



Mae modd ymgeisio nawr!
Darganfod mwy a mynegi
diddordeb drwy sganio'r côd QR hwn



YN Y GÊM!

**CYSTADLEUAETH CELF
A DYLUNIO GEMAU**

GET IN THE GAME!

**GAMES ART & DESIGN
COMPETITION**



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Hoffem gyflwyno ein Cystadleuaeth Celf a Dylunio Gêm ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae dau friff cystadlu, un i ysgolion (blwyddyn 7-11) ac un i golegau/chweched dosbarth (Addysg Bellach).

Cystadleuaeth Ysgolion

Briff: Mae fy nghymydog newydd yn BETH?

Mae rhywun newydd wedi symud i mewn drws nesaf. Pwy ydyn nhw? Beth maen nhw'n ei wneud? O ble maen nhw'n dod? Dyluniwch eich cymydog newydd a sut olwg sydd ganddyn nhw.

Cystadleuaeth Addysg Bellach

Briff: Pwy oedd yn byw yma cyn fi? Wrth glirio lle o amgylch y tŷ, fe welwch gyfres o arteffactau a gadawodd y perchnogion blaenorol. Pwy oedden nhw? Beth wnaethon nhw? Beth ddysgon nhw am y tŷ?

Mae'r farchnad gemau byd-eang yn tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac felly mae galw mawr am artistiaid gêm broffesiynol. Rydym yn gobeithio y bydd y gystadleuaeth hon yn ysbrydoli myfyrwyr i ddilyn gyrfa gyffrous o fewn maes dylunio a datblygu gemau.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, rydym yn cynnal sesiwn gymorth gyda staff academaidd drwy 'Microsoft Teams' ar Dydd Mawrth 14 Chwefror rhwng 4.30 - 5.30 pm.

Cliciwch i [gofrestru](#) eich diddordeb, gan ddefnyddio'r teitl e-bost YN Y GEM!

ARBEDWCH Y DYDDIAD AR GYFER EIN 2023 YN FFILM Y GWANWYN DANGOSIADAU



Bydd Dangosiadau'r Gwanwyn yn cael eu cynnal o **6-31 Mawrth 2023**, gyda channoedd o ddangosiadau i ysgolion cynradd ac uwchradd eu mynychu, i gyd am ddim. Bydd archebion yn agor ddydd **Mercher 18 Ionawr 2023**.

Eleni, bydd rhaglen Dangosiadau'r Gwanwyn yn cael ei churadu o dan faner Pethau i Ddod.

Bydd y casgliad cyffrous o ffilmiau yn edrych tua'r dyfodol ac yn canolbwyntio ar gynnydd ac esblygiad, a sut mae'r rhain yn cael eu darlunio trwy ffilm. Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn brofiad cythryblus i bobl ifanc ledled y byd, ac er bod cynnydd yn aml wedi ymddangos yn araf ac yn llonydd ar adegau, mae'n bwysig cymryd cam yn ôl ac edrych ar y newidiadau cadarnhaol sy'n digwydd.

[Cliciwch yma](#) i ddarganfod mwy.



ADNODDAU ADDYSGU LLIFOGYDD



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

A fyddai eich dysgwyr yn gwybod beth i'w roi mewn pecyn llifogydd; yr eitemau allweddol a fydd yn helpu i leihau'r risgiau os bydd llifogydd yn golygu bod angen iddynt adael eu cartref yn gyflym? Ydyn nhw'n ymwybodol o'r casau a allai fod yn bresennol mewn llifddwr a pham eu bod yn beryglus? Am weithgareddau, astudiaethau achos ac adnoddau a fydd yn eich helpu i gyflwyno a chodi ymwybyddiaeth eich dysgwyr o'r pwnc emosiynol hwn, edrychwch ar ein [tudalen we Llifogydd](#).



GAIN A FREE MICROSOFT CERTIFICATE TO START YOUR DIGITAL CAREER



Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog mewn partneriaeth â Microsoft yn lansio rhaglen 5 wythnos sy'n cwmpasu'r sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer rhai o'r swyddi y mae galw mawr amdanynt ar hyn o bryd.

Mae'r cwrs yn rhad ac am ddim, ar-lein a bydd pob person ifanc yn ennill tystysgrifau i gamu i'r diwydiant digidol ac ar yr ysgol yrfa!

Yn rhedeg 6 Chwefror - 10 Mawrth.

Gwneud cyfeiriadau drwy dîm gwasanaeth cwsmeriaid Ymddiriedolaeth y Tywysog ar: 0800 842 842



Zooniverse mewn ysgolionmewn prosiect ymgysylltu cyffrous sy'n defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i bontio'r bwlch rhwng gwyddoniaeth ysgol a gyrfaoedd STEM. Mae Prifysgol Rhydychen yn gweithio mewn partneriaeth ag [Gwyddonydd ydwi](#), i lansio cyfres o weithgareddau byr, cwbl rhad ac am ddim wedi'u hanelu at flynyddoedd 5-8 y gellir gweithio drwyddynt cyn ymuno â sesiwn sgwrsio i drafod eich canlyniadau gyda thîm o wyddonwyr ymchwil.

Bydd y gweithgareddau hyn yn arwain eich disgyblion tuag at ateb cwestiynau am ddisgleirdeb galaeth, lliw a siâp, a thuag at ddeall sut mae ymchwilwyr yn defnyddio cyfrifiaduron i symud o luniau i ddeall ein bydysawd. Bydd y gweithgareddau ar gael ar wefan Zooniverse a bydd fideos esboniadol a chanllawiau athrawon yn cyd-fynd â nhw sy'n cynnwys rhai syniadau ymarferol ar gyfer arbrofion i ymestyn profiad dysgu eich disgyblion. Ar ôl cymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau ag y dymunwch, cewch eich cyfeirio at I'm a Scientist i archebu sesiwn sgwrsio lle gallwch siarad am eich gwaith a phopeth sy'n ymwneud â gwyddor y gofod.

Bydd pedair gweminar rhwng **31 Ionawr a dydd Iau 2 Chwefror 2023**, a fydd yn eich cyflwyno chi a'ch disgyblion i'r gweithgareddau ac i'w tîm, neu, os yw'n well gennych, gallwch ymuno â ni ar gyfer un o'n gweminarau addysgwyr yn y noson yn lle.

[Cofrestrwch ar gyfer eu gweminarau.](#)



DEPARTMENT OF

PHYSICS



GWEITHDAI YSGOLION A CHOLEGAU

Immersed! Mae'r Wyl yn dychwelyd am ei phumed flwyddyn yn arddangos y gorau o gerddoriaeth fywiog De Cymru ar draws 4 digwyddiad ymylol mewn partneriaeth â Orchard Live, Music Declares Emergency, Buzz Magazine, Tramshed a Libertino Records.

Ar Ddydd Gwener 17eg o Chwefror hoffem ddathlu 5ed pen-blwydd yr Wyl Immersed! trwy eich gwahodd i'r Atriwm Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithdai creadigol sydd yn gysylltiedig â'r diwydiant a theithiau o'n cyfleusterau gwych. Mae'r gweithdai a'r teithiau campws yn addas ar gyfer unrhyw ddysgwr blwyddyn 12 a 13 (Lefel 3 cyfatebol) a bydd yn dechrau o 10:00 ac yn gorffen am 14:00.

Bydd y myfyrwyr sy'n mynychu'r gweithdai yn cael y cyfle i brynu tocynnau ar gyfer Trochi! yn y Tramshed ar y Dydd Sadwrn am gyfradd ostyngol. Os hoffech ragor o wybodaeth, cliciwch [yma](#).

Am ragor o wybodaeth am y gweithdai a'r teithiau campws, ac i gofrestru diddordeb eich ysgol / coleg, llenwch y ffurflen sydd wedi'i chysylltu isod [yma](#).

WYTHNOS CROESO I DY BLEIDLAIS 2023



Dydd Llun 30 Ionawr – Dydd Sul 5 Chwefror


Cymrwch ran yn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023 a dechreuwch y sgwrs am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth gyda phobl ifanc rydych yn gweithio â nhw.

Ar gyfer 2023, thema Wythnos Croeso i Dy Bleidlais yw ‘ein democratiaeth’. Rydym yn pwysleisio bod democratiaeth i bawb, a bod democratiaeth yn digwydd o’n hamgylch.

Rydym yn gofyn i athrawon ac addysgwyr i helpu pobl ifanc i ddysgu mwy am eu democratiaeth a’u pleidlais drwy ddarparu addysg ddemocratiaidd yn ystod yr wythnos. Defnyddiwch ein hadnoddau i redeg gweithgaredd i drafod beth mae democratiaeth yn ei olygu, a sut y gall pawb gymryd rhan a dweud eu dweud.

Cofrestrwch i fod yn rhan o’r wythnos a derbyniwch eich adnoddau Wythnos Croeso i Dy Bleidlais sy’n lawrlwythadwy ac yn rhad ac am ddim - maent yn cynnwys sleidiau cyflwyniad, graffigau cyfryngau cymdeithaso a phosteri.

Rhannwch eich gweithgareddau gyda #CroesoIchPleidlais
#WelcomeToYourVote.





Dewiswch Eich
Dyfodol

Cadwch y Ddyddiad!

Mae Prentisiaethau'n Gweithio

Digwyddiad Gyrfaoedd i ddisgyblion ym
mlwyddyn 10 ac uwch

Dydd Iau 9^{fed} Mawrth 2023
Neuadd y Ddinas, Caerdydd

#DewisEichDyfodol

Dewis Eich Dyfodol, Mae Prentisiaethau'n Gweithio!

Byddwn yn cynnal ein Digwyddiad Gyrfaoedd ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10 ac uwch, ar ddydd Iau 9fed Mawrth yn Neuadd Y Ddinas Caerdydd.

- Bydd y disgyblion yn cael “Cyflwyniad i Brentisiaethau’ wrth gyrraedd er mwyn eu paratoi ar gyfer yr ymweliad.
- 70+ o Arddangoswyr gyda gwybodaeth ar Brentisiaethau ar bob lefel, o Lefel Sylfaenol i Lefel Gradd.
- Bydd disgyblion sy'n gadael ysgol yn gallu cwrdd â chyflogwyr gyda cyfleoedd Prentisiaethau bwy gyda dyddiad dechrau Medi 2023.
- Bydd disgyblion sy'n aros yn yr ysgol yn gallu casglu gwybodaeth am Brentisiaethau ar bob lefel oddiwrth chyflogwyr lleol.
- Bydd Prentisiaid presennol, o ystod eang o sectorau, ar gael i gwrdd â'r disgyblion.
- Gall y disgyblion fynyachu gweithdai yn ystod y dydd yn ogystal â chymeryd rhan mewn paneli Trafod Prentisiaethau.

Bydd mwy o fanylion yn dilyn, plis cadwch y dyddiad gan byddwn wrth ein bodd i weld eich disgyblion ar y dydd!

Os oes unrhyw gwestiynnau plis cysylltwch gyda
Debbie.Powell@gyrfacymru.llyw.cymru

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

CYNHADLEDD ATHRAWON A
CHYNGHORWYR 2023

ADEILADU
TUAG AT
2030



Ble:

Campws Casnewydd, PDC

Pryd:

9 Chwefror 9:30yb - 3:15yp

Digwyddiad amhrisiadwy i athrawon a chynghorwyr, mae ein Cynhadledd Adeiladu Tuag at 2023 yn rhad ac am ddim a bydd yn darparu mewnwelediadau sector hanfodol a diweddariadau gan UCAS, Cyllid Myfyrwyr Cymru ac Unifrog, yn ogystal â sesiynau ar les myfyrwyr, cydraddoldeb a chefnogi myfyrwyr gyda'u dewisiadau AU.

I archebu eich lle, sganiwch y cod QR.





THE NATIONAL SCHOOL + SHOW

COLLEGE LEAVER 6-7 MARCH 23, ICC WALES, NEWPORT.

Cynhelir Sioe Genedlaethol Ymadawyr Ysgolion a Cholegau – Cymru yn yr ICC, Cymru yng Nghasnewydd ddydd Llun 6 a dydd Mawrth 7 Mawrth 2023. Mae'r sioe yn ddigwyddiad perffaith i'r rhai sy'n gadael Ysgol a Choleg, yn ogystal ag oedolion ifanc, ddarganfod mwy am y post -cyfleoedd ysgol ac ôl-coleg ar draws y rhanbarth. Ymhlith yr arddangoswyr mae Admiral, BBC, Burtons Biscuit Company, Bluestone Park Resort, Prifysgol Caerdydd, DAF Trucks, Heddlu Gwent, Y Swyddfa Dywydd, Cyngor Dinas Casnewydd, PwC, Gwasanaeth Tân ac Achub, Trafnidiaeth Cymru. Darganfyddwch fwy [yma](#).

Rydyn ni eisiau i bob person ifanc yng Nghymru gael y cyfle i gael sgwrsiau am eu dyfodol gyda'n harddangoswyr sydd â chyfleoedd ar eu cyfer! Teimlwn mor angerddol am hyn fel ein bod yn cynnig **teithiau bws wedi'u hariannu'n llawn i ysgolion a cholegau**.

Mae yna hefyd agoriad arbennig gyda'r nos i rieni a gofalwyr ddod â'u person ifanc nad yw efallai'n mynychu trwy eu hysgol neu goleg. Mae hyn yn digwydd ddydd Llun **6 Mawrth 2023, 15:30 – 18:00**.

Cofrestrwch i fynychu'r digwyddiad [yma](#)



MONDAY 6 MARCH 2023 - 10:00 – 14:30 & 15:30 – 18:00

TUESDAY 7 MARCH 2023 - 10:00 – 14:00

CYFLEOEDD CYFNEWID

RHYNGWLADOL LLWYBR TAITH 1

2023



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



international
links
cysylltiadau
rhyngwladol

Taith yw rhaglen £65 miliwn Llywodraeth Cymru i gefnogi cyfnewidiadau addysg rhyngwladol ar gyfer y sectorau ysgolion, ieuenctid, AB, VET, addysg oedolion ac AU.

Mae'r alwad nesaf am ei gyfleoedd 'Llwybr 1' yn agor ddydd Iau 19eg Ionawr 2023. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 16eg Mawrth 2023 a bydd prosiectau llwyddiannus yn gallu dechrau gweithgareddau o fis Medi 2023 ymlaen.

Dylai unrhyw ysgolion neu sefydliadau cymwys eraill sy'n ystyried gwneud cais am gyfleoedd ar gyfer ymweliadau gan ddisgyblion dramor a/neu gyfleoedd cysgodi swyddi i staff mewn gwlad arall, gadw eu llygad ar ddiweddariadau gan dîm Taith yma.

Mae tîm Taith wedi cyhoeddi dyddiadau sesiynau cymorth ar-lein arfaethedig yn ddiweddar ar gyfer sefydliadau sydd am wneud cais uniongyrchol am gyllid Taith. Ceir manylion llawn am y rhain yma.

Os hoffai eich ysgol neu fudiad ddarganfod mwy am Taith, cysylltwch ag Amanda Morgan ar amanda@internationallinks.co.uk



Keep up-to-date with the Cardiff Commitment's latest updates through our [News and Events Page](#).



contact us!

cardiffcommitment@cardiff.gov.uk